| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **17 Gorffennaf 2023** |
| **TEITL** | **Tâl Athrawon** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

**Yn dilyn trafodaethau yn y GCSU (Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd) cyflwynwyd cais am y wybodaeth ganlynol –**

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dyraniad ychwanegol ar gyfer pob ysgol yn y flwyddyn ariannol 2022-23;

Yr is-fformiwlâu y seiliwyd y codiad arnynt (e.e. a oedd yn seiliedig ar y dyraniad addysgu 11-16 yn unig neu a oedd yn cynnwys is-fformiwlâu megis diogelu cyflogau ar gyfer ysgolion bach, staff addysgu ADY a grantiau y cyflogwyd staff ohonynt?) ;

Sut mae'r atebion i'r ddau gwestiwn uchod wedi bwydo i mewn i'r dyraniadau ar gyfer 2023-24;

Y symiau ychwanegol a ddyrennir i bob ysgol ar gyfer codiad cyflog cyn-16 drwy'r fformiwla ac ôl-16 drwy'r grant.

**1.** **<u>Setliad Cyflog Athrawon Llywodraeth Cymru Medi 2022</u>**

Y ystod 2022/2023 penderfynodd Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf ar godiad cyflog o 5% i athrawon ym mis Medi 2022. Wedyn yn hwyr ym mis Mawrth 2023, roedd codiad pellach o 3%. Roedd y 3% wedi'i rannu yn 1.5% parhaol (consolidated pay award) wedi'i ôl-ddyddio i Medi 2022 ac 1.5% unwaith ac am byth (non-consolidated pay award) am y flwyddyn academaidd 2022/23.

**2.** **<u>Dyraniad Cyngor Gwynedd</u>**

Roedd dyraniad gwreiddiol 2022/23 yn cynnwys amcangyfrif o 3% codiad cyflog athrawon ym Medi 2022. Pan penderfynwyd ar y codiad cyflog o 5%, yn y lle cyntaf, yn sgil lefel balansau ysgolion, roedd bwriad i'r ysgolion eu hunain gyllido y gwahaniaeth o 2%. Fel oedd trafodaethau cenedlaethol yn parhau am setliad cyflog athrawon, bu ail-feddwl y sefyllfa a bu i'r Cyngor ddyrannu 2% £668,938 ychwanegol i ysgolion. Dyraniad yn rhannol ar sail fformwila (pennawd athrawon yn unig) ac hefyd pro-rata i gwir gostau cyflogau Medi-Mawrth.

**3.** **<u>Grantiau Llywodraeth Cymru</u>**

Wrth ddatgan codiad cyflog ychwanegol o 3%, bu i Llywodraeth Cymru hefyd gadarnhau grant o £1,163,399 yn 2022/23 cyfwerth a 1.5% am y cyfnod Medi 2022 i Mawrth 2023 ac hefyd am 1.5% am y flwyddyn academaidd Medi 2022 i Awst 2023. Dyranwyd y grant –

- yn seiliedegai  ar gwir gostau 7mis Medi2022-Mawrth 2023
- amcangyfrif am y 5mis Ebrill-Awst 2023 ar sail cyflogau contractau Mawrth 2023 a llanw ar gyfartaledd cyflogau Hydref 2022-Mawrth 2023

Creuwyd reserfau am amcangyfrif y costau ychwanegol i pob ysgol, fel bod arian wedi i glustnodi yng nghyfrifon 2023/24 pan talwyd y codiadau cyflog – y 1.5% ym mis Ebrill 2023 a'r 1.5% non-consolidated ym mis Mai 2023.

Bu cynnydd yn Grant Ôl-16 gwerth £169,469 fel cydnabyddiaeth o'r 3% ychwanegol, ond dim cynnydd ar unrhyw grant arall.  Dyranwyd y grant ychwanegol ar sail nifer rhaglenni dysgu 6ed.

## 4. Crynodeb o'r cyllid ychwanegol

| blwyddyn ariannol 2022/23 | | yn ystod 2022/23 | Consolidated 1.5% | 6.5% (7/12) | Non- consolidated | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3% yn y gyllideb sylfaen (7/12) | 2% ychwanegol wedi ddyrannu (7/12) | Grant Tâl | Grant 6ed | Grant Tâl | Grant 6ed |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ysgolion Cynradd | 443,438 | 287,821 | 226,220 | | 321,630 | |
| Ysgolion Dilynol | 66,796 | 46,110 | 33,714 | 8,121 | 47,849 | 2,299 |
| Ysgolion Uwchradd | 411,046 | 314,153 | 204,656 | 123,955 | 290,813 | 35,094 |
| Ysgolion Arbennig | 60,060 | 20,854 | 15,901 | | 22,616 | |
| | **981,340** | **668,938** | **480,489** | **132,076** | **682,910** | **37,393** |

| blwyddyn ariannol 2023/24 | | Cyllideb 2023/24 | | Grant Tâl | Grant 6ed | Non- consolidated | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3% yn y gyllideb sylfaen (7/12) | 2% (7/12) | 5% (5/12) | Consolidated 1.5% (Blwyddyn Llawn) | 4.93% | Grant Tâl | Grant 6ed |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ysgolion Cynradd | 443,438 | 293,235 | 537,907 | 388,035 | | | |
| Ysgolion Dilynol | 66,796 | 44,859 | 82,281 | 57,829 | 12,207 | 0 | 0 |
| Ysgolion Uwchradd | 411,046 | 279,066 | 511,841 | 351,046 | 186,297 | 0 | 0 |
| Ysgolion Arbennig | 60,060 | 40,350 | 74,017 | 27,274 | | | |
| | **981,340** | **657,510** | **1,206,046** | **824,184** | **198,504** | **0** | **0** |

## 5. Casgliad

Mae'r sefyllfa wedi bod yn gymhleth ofnadwy gyda 3 elfen gwahanol i'r amcangyfrifon /ffigyrau –

- Fformiwla Llywodraeth Cymru
- Cyllideb Addysg Cyngor Gwynedd
- Gwir Gostau Cyflogi – sydd yn ddewisol i pob ysgol

Mae cymhlethdodau pellach yn sgil graddfeydd cyflog, lwfansau a staff llanw.

Mae rhaid cydnabod, o bosib bod y seiliau dyrannu/cyllido ar bwyntiau gwahanol yn ystod  y flwyddyn, ddim pob amser wedi cyllido y codiad cyflog yn llawn ym mhob ysgol yn ddibynnol ar gyflogaeth ysgolion unigol.

Gallwn gadarnhau fodd bynnag, bod unrhyw arian ychwanegol sydd wedi'i adnabod a'i dderbyn wedi cyrraedd ysgolion.